




Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

7. ARDALOEDD NODWEDD TIR

TAFLENNI DATA

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
ANT1 - ARFORDIR SETLEDIG SAUNDERSFOOT



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Darn o dir sy'n gorwedd o flaen bae llydan, a'r anheddiad a'r iseldir tonnog cysylltiedig, rhwng Dinbych-y-pysgod a ffin ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol. Mae'r cysylltiad cryf gyda'r arfordir yn rhoi ymdeimlad o le yn llawer o'r ardal.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Dyma ardal ddymunol o gymoedd gyda rhai cysylltiadau gweledol at yr arfordir ar hyd Bae Saundersfoot. Mae'n cynnwys sawl pentref bach arall, gan gynnwys Summerhill, Llanrath, Wiseman's Bridge a Sardis, sy'n swatio mewn ardaloedd coediog ar hyd sawl cwm bychan, gyda nentydd yn llifo i'r arfordir. Mae llechweddau'r cymoedd yn goediog i raddau helaeth gyda chyfuniad o fathau o goed o fewn tirwedd amaethyddol ehangach. Mae yna gymeriad ystad nodedig i'r dirwedd yn yr ardal o amgylch Castell Hean a Neuadd Copet. Er bod yr anheddiad yn eithaf dwys, mae'r tiffurf tonnog gyda dyffrynnoedd afon bach yn rhedeg i'r arfordir, a'r lefel o orchudd coetir a thir amaethyddol sy'n bresennol, yn golygu nad ydyw'r ffurf adeiledig yn ymwithiol ar y cyfan, ac eithrio rhannau uwch Saundersfoot pan welir hwy ar draws y bae. Dominyddir Saundersfoot gan ddatblygiad trefol y dref fawr hon. Nodwedd o'r arddull adeiledig yw'r tyfiant o amgylch canol hanesyddol y dref, sy'n dai modern yn bennaf, llawer ohonynt heb fawr o gysylltiad â lleoliad arfordirol y dref, ond mae gan lan y môr a chanol y dref gysylltiad arfordirol cryf sy'n rhoi ymdeimlad o le. Mae meysydd carafannau arfordirol yn ymwithiol yn weledol yn Nhrevayne a New Hedges.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae cynefinoedd lled-naturiol yn cynnwys coetiroedd deilgoll a chonifferaidd (planhigfeydd gan fwyaf); prysg aeddfed; dyffrynnoedd nant coediog cysgodol; prysg arfordirol; clogwyni; traethau caregog a thywodlyd a strwythurau artiffisial (amddiffynfeydd arfordirol); stormdraethau cobl/cerrig crwn. Mae ystlumod yn defnyddio hen geuffyrdd a thwnneli pyllau ar yr arfordir. Yn y Gaeaf, mae yna nifer uchel o fôr-hwyaid du yn ymgasglu oddi ar y lan; mae gwylanod, piod môr a chwtiaid y traeth yn ymgasglu ar y traeth.

Nodweddion Daearegol

Traethau tywodlyd llydan gydag ardaloedd sylweddol o lwyfandir craig, gyda chlogwyni tu ôl a llethr arfordirol serth cysylltiedig. Ceir cribyn o raeon bras yn Llanrath ac amddiffynfeydd morol yn Saundersfoot a Dinbych-y-pysgod. System o gymoedd arfordirol wedi'u torri'n ddwfn, sy'n cynnwys sylfaen wastad a chul yn y de. Nid yw'r rhan uchaf yn endoredig iawn. Mae yma orliffdir cul. Dominyddir gan 'Gystradau Glo' (Carbonifferaidd) siâl a thywodfaen.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Henebion o gynhanes, bryngaerau Oes Haearn ac adeiladau/strwythurau ôl-ganoloesol, sy'n bwysig yn genedlaethol. Mae cyrchfannau gwyliau yn Sir Benfro yn ficrocosm o'r newid mewn arferion gwyliau ym Mhrydain. Mae eu datblygiad ffisegol yn adlewyrchu'r newid. Mae Saundersfoot yn enghraifft.

Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
1	Arfordir Setledig Saundersfoot	88 - Uchel 54 - Canolig 55 - Isel	217- Eithriadol 200-Canolig	481 - Isel 541-Uchel 885-Canolig 533-Canolig	46160-Uchel 46161 - Uchel 46162-Uchel 46173-Uchel	003 - Eithriadol 439-Uchel

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at y Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig *(Nodweddion Pwysig y Dirwedd)*

- Er bod yna anheddiad sylweddol yn yr ardal, mae'n cynnwys rhai darnau o dir fferm a choetiroedd deniadol hwnt ac yma rhwng yr aneddiadau a'r ffermydd llai
- Mae yma ymdeimlad arfordirol gyda natur agored a golygfeydd deniadol ar hyd yr arfordir. Mae'r olygfa tua'r de o Lanrhath tuag at Ddinbych-y-pysgod yn nodedig oherwydd tirnod amlwg meindwr yr eglwys yn y pellter, a welir uwchlaw Pwynt Monkstone yn y tir canol
- Tua'r tir, mae'r dirwedd ystad wledig a'r cymeriad parcdir o amgylch Castell Hean a Neuadd Copet yn ddeniadol iawn ac yn nodwedd leol
- Mae yna rai cynefinoedd yma sy'n bwysig yn rhyngwladol, ac yn cyfrannu at werth ecolegol uchel rhannau o'r dirwedd
- Mae'r nodweddion hanesyddol ac archeolegol a gofnodir yma yn ddigon i olygu bod yr ardal gyfan yn haeddu gwerth hanesyddol uchel, yn enwedig creiriau diwydiannol, fel y dramffordd a'r inclein, sy'n elfennau cymharol brin o'r diwydiannau echdynnu lleol sydd wedi goroesi. Mae'r gorffennol diwydiannol hwn yn werth hanesyddol sydd gan nifer o'r trefi a'r pentrefi arfordirol yn y Parc Cenedlaethol
- Mae'r newidiadau diweddar mewn tueddiadau gwyliau wedi erydu'r cymeriad tref glan môr gwreiddiol, ond nid yw'r ymdeimlad hanfodol wedi ei cholli eto.
- Mae gan Saundersfoot Ardal Gadwraeth o amgylch ardal yr hen dref ar hyd glan y môr a'r harbwr (dynodwyd ym Medi 1995)


Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'r dirwedd amaethyddol yn cael ei defnyddio mewn ffydd amrywiol gyda chyfran helaeth o leiniau cysgodi a chymoedd coediog dymunol
- Mae perthi sydd wedi gordyfi yn arwydd o'r dirywiad mewn arferion rheoli ffiniau cae traddodiadol
- Mae datblygiadau trefol a thwristiaidd modern yr ardal wedi bod yn rhai ansensitif mewn rhai lleoliadau, ac mae hyn wedi arwain at ddirywiad amlwg yng nghyflwr y dref, er nad yw'r dirywiad yn ddramatig.
- Dwysâd mewn twristiaeth (LANDMAP Newid Cyfeiriad: Adroddiad Monitro Elfennau Gweledol a Synhwyrdd mis Mawrth 2015)

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod y traethau tywodlyd a gostwng y perygl o lygredd dŵr cymaint â phosib
- Gwarchod yr adeiladau traddodiadol ar hyd glan môr Saundersfoot, o amgylch yr harbwr ac yng nghanol y dref, yn ogystal â'r ardaloedd gwyrdd sydd wedi eu gorchuddio gan goed tuag at gefn y dref, yn enwedig y tir amaethyddol i'r gorllewin sy'n rhannu'r ddwy ardal adeiledig ac yn cyfrannu'n gryf at yr ymdeimlad o le yn lleol
- Gwarchod y safleoedd archeolegol pwysig, yn enwedig y dramffordd a'r inclein, er mwyn cadw eu cyfanrwydd a'u cyd-destun gweledol
- Gwarchod cymeriad y brithwaith o dir amaethyddol a choetiroedd, yn enwedig ar dirwedd yr ystad a'r parcdir o amgylch Castell Hean a Neuadd Copet, a rheoli perthi'n rheolaidd, ar gylch; annog rheolaeth bositif ar gyfer coetiroedd a lleiniau cysgodi
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad perthi traddodiadol a waliau cerrig ar ffiniau cae , yn enwedig mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Sgrinio unrhyw estyniadau i safleoedd carafán presennol mewn ffordd fwy sensitif ble mae'r lleoliad yn arbennig o sensitif yn weledol; gwrthod unrhyw feysydd carafannau newydd a gynigir, neu estyniadau i feysydd carafannau , ble mae'r cyd-destun gweledol yn arbennig o sensitif, yn enwedig ar y tir uwch neu ar y gorwel
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 2 - DINBYCH-Y-PYSGOD



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Dyma dref hanesyddol ar yr arfordir, mewn iseldir tonnog. Mae'r ddau fae'r naill ochr i Ynys Catrin yn nodweddiadol iawn ac yn cyfrannu'n sylweddol - ynghyd â'r harbwr ym Mae'r Gogledd - at yr ymdeimlad arfordirol o le .

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Yn y dref, mae yna lan môr bensaernïol Eorgaidd deniadol sy'n edrych allan dros y traethau a'r harbwr gerllaw, a hen dref gaerog draddodiadol ac olion castell. O'u hamgylch, mae yna ddatblygiad trefol trwm. Mae'r golygfeydd o ochr ogleddol yr hen dref, yr harbwr a Thraeth y Gogledd yn edrych ar draws Bae Saundersfoot . Gan fod Ynys Bŷr mor agos, mae'n fan ffocws ar gyfer y golygfeydd tua'r de o'r dref allan at y môr, yn enwedig ar hyd ymyl deheuol yr hen dref o Draeth y De.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Ardal adeiledig a ddominyddir gan dai, gyda rhai ardaloedd adwerthu ac agored. Mae'r cynefinoedd yn cynnwys gwelyau cyrs, twyni tywod arfordirol, glaswelltir twyni, glaswelltir clogwyni môr, clogwyni môr a glannau caregog a thywodlyd. Mae'r ardal yn cynnal rhywogaethau pwysig gan gynnwys y dyfrgi a sawl math o ystlum ac mae'n gyfoeth o fywyd morol ee. (ar Graig Gosker ac Ynys Catrin).

Nodweddion Daearegol


Ardal drefol Dinbych-y-pysgod yn cynnwys Ynys Catrin. Creigwely a ddominyddir gan galchfaen Carbonifferaidd. Basnau afon arfordirol, ceinciog sydd bellach yn cael eu dominyddu gan dir cors ac yn cynrychioli hen lyn / lagŵn mewn aber a foddwyd (Chwaternaidd: Holosen). Fe'i gwahanir oddi wrth y môr gan rwstr tywod The Burrows. Twyni tywod a blaendraeth tywodlyd i'r de orllewin o Ddinbych-y-pysgod a'r dwyrain o Benalun (Chwaternaidd: Holosen).

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae'r dref Ganoloesol, y waliau, y castell, y tŵr gwyllo a'r odynau calch oll o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r cyrchfannau gwyliau yn Sir Benfro yn ficrocosm o newid diwylliannol, wrth i natur ddiwylliannol cyrchfannau gwyliau newid. Ers meitin, mae parciau carafán wedi bod yn rhan o'r dirwedd ddiwylliannol yn Sir Benfro. Yn y chwedegau a'r saithdegau, gwelwyd safleoedd carafán a datblygiadau chalet yn cynyddu mewn nifer, maint ac ansawdd. Mae Kiln Park yn Dinbych-y-pysgod ymhlith y gorau o'i fath, ac yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflogaeth dymhorol.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearogol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
2	Dinbych-y-pysgod	56 - Uchel 57 - Canolig 85 - Canolig 86 - Uchel 87 - Uchel	216 - Canolig 218 - Canolig 226 - Isel	347 - Uchel 392 - Canolig 402 - Isel 541 - Uchel 645 - Uchel 885 - Canolig	46152 - Eithriadol 46154 - Uchel 46219 - Uchel	003 - Eithriadol 183 - Uchel 439 - Uchel

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Roedd yr ANT hon, sydd wedi'i chanoli ar Ddinbych-y-pysgod, yn haeddu ei statws ar wahân trwy rinwedd ei chymeriad trefol, traddodiadol y gwelir ei nodweddion yn y bensaernïaeth Eorgaidd, hen waliau'r dref a'r castell, sy'n rhoi ymdeimlad cryf iawn o le i'r dref
- Mae'r dopograffeg arfordirol yn nodedig ac mae yna gysylltiad agos rhwng y dref a'r traeth - gyda golygfeydd wedi'u fframio o rai strydoedd allan at yr harbwr traddodiadol a'r traethau tywodlyd a The Burrows - ac Ynys Bŷr, sy'n agos oddi ar y lan
- Ceir awyrgylch cyffyrddadwy canolfan hanesyddol hirsefydlog, gyda dylanwadau diweddarach o'i rôl fel tref gyrchfan arfordirol sy'n boblogaidd ymhlith ymwelwyr o Loegr yn ogystal â Chymru; canolfan sydd o bwysigrwydd diwylliannol cenedlaethol
- Mae'r nodweddion adeiledig hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol, yn enwedig presenoldeb tair elfen amlwg sy'n adlewyrchu esblygiad y dref: waliau'r dref a'r castell canoloesol; y bensaernïaeth drefol Eorgaidd; a chreiriau'r diwydiannau echdynnu ar ôl y cyfnod Canoloesol, yn enwedig yr odynau calch yn Kiln Park, sy'n strwythurau unigryw. Mae'r gorffennol diwydiannol hwn yn briodwedd hanesyddol sydd gan lawer o'r trefi a'r pentrefi arfordirol yn y Parc
- Cwm naturiolaid a chyferbyniol Ritec a thwyni tywod The Burrows wrth gefn Traeth y De.
- Mae gan Ddinbych-y-pysgod Ardal Gadwraeth helaeth (a ddynodwyd yn gyntaf yn 1971 ac a ymestynnwyd yn dilyn adolygiad yn 1990. Cymeradwywyd adolygiad pellach yng Ngorffennaf 2002). Mae'n ymestyn ar hyd glan y môr tua'r de o First Point, o amgylch Rhiw'r Castell, gan gynnwys Ynys Catrin, ac mor bell i'r de a phen gogleddol Traeth y De i'r gorllewin o Bacon's Hole; mae'r dref gaerog hefyd wedi'i chynnwys o fewn y ffin.Yn dilyn adroddiad pellach yn 2019, mae ffin yr Ardal gadwraeth wedi profi newidiadau sylweddol i'r gorllewin, i gynnwys ardal Southcliff, strydoedd pwysig anghysbell, yr Hen Reithordy a'r Fynwent. Mae'r estyniad yn cynnwys datblygiad gorau'r 19eg ganrif hwyr (ar ôl cyfnod y rheilffordd) y dref, cyfnod nad oedd â chynrychiolaeth ddigonol o fewn y ffin flaenorol. Mae llawer o'r ardal yn cynnwys datblygiadau mentrus, tai cywrain a dau brif Gapel Anghydffurfiol, cyferbyniad grymus i'r tai teras ger y môr a chanol masnachol y dre. Mae ardal y fynwent yn cynnig golygfa ddeniadol ar gyfer yr ardal gadwraeth yn ogystal â bod yn fan o bwysigrwydd cymdeithasol amlwg.


Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'n ymddangos bod yr hen dref mewn cyflwr gweddol gyson a bod ei ffabrig yn cael ei rheoli'n weddol gyson
- Dylanwadwyd ar gyrion y dref, i raddau helaeth, gan ddatblygiadau gwyliau'r 20fed ganrif– parciau carafán a chalets - i'r graddau nad ydyw'r ymwelydd yn ymwybodol o awyrgylch a phensaernïaeth nodedig y dref, sydd o ansawdd uchel, cyn dod i mewn i graidd Dinbych-y-pysgod.
- Dwysâd mewn twristiaeth (LANDMAP Newid Cyfeiriad: Adroddiad Monitro Elfennau Gweledol a Synhwyrdd mis Mawrth 2015)

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod cymeriad y dref arfordirol draddodiadol, trwy gynllunio datblygiadau i sicrhau eu bod yn unol â chymeriad y ffurf adeiledig draddodiadol, tra'n cadw cydbwysedd rhwng yr angen i ddatblygu'r economi'n gynaliadwy a gwasanaethu anghenion ymwelwyr a thrigolion
- Gwarchod nodweddion pensaernïol hanesyddol a chynhenid gan gynnwys olion y castell, waliau'r hen dref, y bensaernïaeth Eorgaidd a chreiriau diwydiannau echdynnu ar ôl y cyfnod canoloesol, er mwyn eu cadw'n gyfan a chadw eu cydestun gweledol
- Ceisio cadw cydbwysedd rhwng galwadau diwylliannol amrywiol, er mwyn cadw nodweddion ffisegol hanfodol y gyrchfan
- Gwarchod agweddau naturiolaid Cwm Ritec trwy adfer ardaloedd cynefinoedd gwlypdir ac osgoi datblygiadau adeiledig a allai eu llechfeddiannu
- Gwarchod y traethau tywodlyd ac osgoi'r perygl o achosion llygredd dŵr; gwarchod cynefin twyni sefydlog The Burrows
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 3 - YNYS BŶR



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Ynys oddi ar y lan y mae pobl yn byw arni. Mae ganddi glogwyni isel ac mae'n gorwedd yn agos i'r de ddwyrain o Bwynt Giltar, ger Penalun, i'r de o Ddinbych-y-pysgod.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Mae Maes Agwedd Ynys Bŷr yn cynnwys ardal ganolog ynys fach ar arfordir de Sir Benfro sy'n cynnwys mwy o fathau o dirweddau wedi eu rheoli nag ynysoedd eraill ar hyd y morlin. Rheolir yr ardal yn bennaf fel tir fferm i gefnogi'r mynachdy ar yr ynys, ac mae yma adeiladau traddodiadol amrywiol sy'n gysylltiedig â defnydd hanesyddol y tir. Mae goleudy Chapel Point ar y pentir deheuol yn dirnod amlwg o'r prif dir.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae'r cynefinoedd yn cynnwys planhigfeydd deilgoll a chonifferaidd, llethrau a chlogwyni morol, twyni tywod, traethau tywodlyd a charegog. Mae'r rhywogaethau pwysig sy'n bresennol yn cynnwys y frân goesgoch ac adar y môr (yn enwedig ar Ynys Marged).

Nodweddion Daearegol

Mae arwyneb daearol yr ynys yn ffurfio arwyneb gwastad neu ychydig bach o oleddf tua 60m uwchben lefel y môr. Fe'i dominyddir gan galchfaen Carbonifferaidd yn y gogledd a Hen Dywodfaen Coch yn y de. Mae rhan ogleddol yr ynys ar oleddf tuag at ardal o dwyni yn y gogledd ddwyrain. Mae yna graig-glogwyni a llwyfandir blaendraeth a thraethau tywodlyd lleol ar Ynys Bŷr ac Ynys Marged.


Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna briordy Canoloesol a pharc a gardd, ynghyd â goleudy ac adeiladau cysylltiedig, pob un yn bwysig yn genedlaethol. Mae Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr yn cynnwys ardal adeiledig yr ynys.

Ynys Bŷr yw cartref yr anheddiad dynol cyntaf yn yr ardal hon, ac nid oedd yn ynys yn ystod y cyfnod Mesolithig. Y canlyniad yw fod gan yr ardal rhynglanwol botensial archeolegol enfawr. Mae Potters a Nanas yn Henebion Cofrestredig oherwydd eu holion o gynhanes.

Nodiant y Map:

- Ffin y
- Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
3	Ynys Bŷr	83 - Eithriadol 95 - Uchel 96 - Uchel	211- Canolig 212 - Canolig	386 - Uchel	46157- Eithriadol 46158- Eithriadol 46159 - Eithriadol	622-Eithriadol

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae'r maes agwedd yn cynnwys ardal amaethyddol graddfa fechan sydd wedi'i anheddu ac sy'n cynnig cysylltiad agos gyda'r amgylchedd arfordirol, gydag ymdeimlad ei bod wedi ei thrin yn fwy nag ynysoedd eraill oddi ar y lan o fewn y Parc Cenedlaethol
- Mae Ynys Bŷr yn unigryw ymhlith yr ynysoedd oddi ar y lan yn Sir Benfro yn y ffaith fod ganddi hanes hir a pharhaus o anheddiad dynol, gyda chysylltiadau crefyddol ffurfiol.
- Darperir agwedd hanesyddol ac ysbrydol gref gan yr adeiladau mynachaid ac eglwysig hirsefydlog
- Mae Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr (a ddynodwyd yn Awst 1997) yn cwmpasu llawer o adran ddwyreiniol yr ynys, gan redeg o'r Cei yn y gogledd i arfordir y de yn Chapel Point, a chwmpasu'r Abaty, yr anheddiad a'r goleudy.

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

- Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)


Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Rheolir yr ardal mewn cyflwr cyson fel tir fferm graddfa fach, gydag ystyriaeth i'r bywyd gwyllt sy'n amlwg mewn ardaloedd coetir a blodau gwyllt mewn perthi ac ar laswelltir arfordirol.

Canllawiau Rheoli

- Gwarchod patrwm y caeau amaethyddol a chymeriad y brithwaith o goetiroedd, a rheoli'r perthi'n gylchol, yn rheolaidd
- Gwarchod a gwella ffabrig ffisegol y priordy a'r gerddi, fel nodweddion allweddol yr anheddiad crefyddol Canoloesol pwysig ar yr ynys
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig.
- Gwarchod y cynefinoedd ar gopa'r clogwyni gyda'r fioamrywiaeth yn brif ystyriaeth, gan ganiatáu mynediad i'r cyhoedd i fwynhau'n dawel mewn ffordd sy'n mynd law yn llaw gyda mesurau gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau
- Gwarchod yr ardal rhynglanwol a'r blaendraeth yng ngolau ei photensial archeolegol sylweddol iawn
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 4 - MAENORBÛR/FRESHWATER EAST



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Darn mawr o iseldir tonnog gyda morlin o glogwyni danheddus, rhwng Ystagbwl a Dinbych-y-pysgod.

Nodweddion Gweledol a Synhwyrdd

Nodwedd o'r ardal hon yw'r tir amaethyddol ar gefnfro de ddwyrain arfordir Penfro. Hwnt ac yma rhwng y caeau bach a chanolig, sydd weithiau â pherthi wedi gordyfu, mae yna aneddiadau, gan gynnwys Jameston, a ffermydd gwasgarog; mae pentrefi MaenorbÛr a Freshwater East ar yr arfordir. Mae golygfeydd deniadol at y clogwyni arfordirol i'r dwyrain yn cyfoethogi'r ymdeimlad arfordirol. Mae'r elfennau sy'n difrio'n weledol yn cynnwys meysydd carafannau a thai modern, yn enwedig ar ymylon arfordirol Freshwater East sydd â llethrau serth. Mae yna gyfres helaeth o glogwyni caregog a llethrau serth gyda rhai cildraethau cysgodol bach a glaswelltir arfordirol uwchben. Mae'r clogwyni'n arbennig o drawiadol ym Mhwynt Lydstep a Proud Giltar, tua 35 metr UDO, ac mae yna olygfeydd hyfryd o Ynys BÛr i'r de ddwyrain.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Ceir amrywiaeth helaeth o gynefinoedd gan gynnwys twyni tywod, clogwyni, traethau tywodlyd, traethau caregog, gwely cyrs (yn Freshwater East), prysg, coetir deillgoll a gweundir sych. Mae'r ardal yn cynnal

Nodweddion Daearegol


Clogwyni a thraethau caregog rhwng Skrinkle Haven a Freshwater East. Uwchben y clogwyni, godiroedd glaswelltir serth yn aml. Blaendraeth caregog wedi'i ddatblygu'n dda ar hyd arfordir MaenorbÛr, gydag ardaloedd o dywod. Yn cynnwys bae tywodlyd Freshwater East gyda'r twyni tu ôl. Dominyddir gan Hen Dywodfaen Coch, cerrig silt a thywodfaen (Silwraidd-Dyfnantaidd). Ardal lydan ac anarferol o wastad tua 35-50m wedi'i ddatblygu ar Galchfaen Carbonifferaidd sy'n codi ychydig i'r gogledd a'r de tuag at sgarpiâu o Hen Dywodfaen Coch.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Henebion o Gynhanes a chrugiau crwn, caerâu o'r Oes Efydd a'r Oes Haearn, castell o Gynhanes, ac adeiladau Ôl Gynhanes, pob un o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae rhan ddwyreiniol yr ANT hon yn cynnwys Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru MaenorbÛr ac yn y rhan orllewinol mae yna ardal fach o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Cwningar

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
4	Maenorbŷr/ Freshwater East	58 - Canolig 59 - Canolig 61 - Canolig 80 - Eithriadol 83 - Eithriadol	222-Eithriadol 224-Canolig	392 - Canolig 453- Eithriadol 470-Eithriadol 467 - Uchel 608-Canolig 808-Eithriadol 982-Canolig	46076-Eithriadol 46077-Eithriadol 46078-Eithriadol 46080-Eithriadol 46082-Eithriadol 46083-Eithriadol 46084-Eithriadol 46173-Uchel	003-Eithriadol 005-Eithriadol

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae gan yr ANT hon werthoedd eithriadol wedi'u priodoli ar draws pob un o'r pum Agwedd o'r dirwedd a werthuswyd.
- Mae'r ardal hon o dirwedd tir fferm sydd â ffurfiau adeiledig traddodiadol yn amlwg yn y pentrefi a'r adeiladau amaethyddol, yn ddymunol, gydag ymdeimlad arfordirol, y mae golygfeydd deniadol o glogwyni arfordirol i'r dwyrain yn ei gyfoethogi. Mae perthi'n elfennau arbennig o bwysig o'r dirwedd, ac yn darparu cyswllt cyffyrddadwy at anheddiad cynharach
- Mae natur agored copa'r clogwyni'n cyferbynnu'n gryf gyda'r cildraethau cysgodol
- Mae yna rai cynefinoedd sy'n bwysig yn rhyngwladol, ac maen nhw'n cyfrannu at werth ecolegol eithriadol rhai o'r tirweddau
- Ceir ymdeimlad hanesyddol a diwylliannol gref o le yma, sy'n wahanol iawn i'r hyn a welir yng ngogledd a gorllewin Sir Benfro, ac elfen nodweddiadol yw'r system Ganoloesol o gaeau agored sydd wedi goroesi'n rhyfeddol o dda yn yr ardal - y llain-gaeau sy'n gorwedd y naill ochr i'r Gribyn rhwng Llandyfai ac i'r de o St Florence. Oherwydd y cyfoeth o safleoedd hanesyddol ac archeolegol a ddogfennwyd mae gan ardaloedd helaeth o dirweddau hanesyddol werth eithriadol. Mae'n werth nodi'r adeiladau Canoloesol: Palas yr Esgob yn Llandyfai, safle tŷ amffosog yn Hodgeston a thirwedd faenorol Maenorbŷr, sydd wedi'i chadw'n hynod o dda, gyda'r castell mawreddog yn dominyddu golygfa'r pentref, yr eglwys amlwg a'r colomendy
- Yn ei dro, mae'r gwerth hanesyddol yn cynnal gwerth diwylliannol y dirwedd ac yn eithriadol. Cydnabuwyd hyn yn ffurfiol yn y ffaith ei bod wedi ei chynnwys yn Nhirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Maenorbŷr. Mae'r dirwedd heddiw yn un sydd wedi'i llunio bron yn gyfan gwbl gan drefniant, anheddiad a defnydd tir daearol, canoloesol. Mae ganddi werth diwylliannol hanesyddol gysylltiedig fel cartref Gerallt Gymro
- Mae yna Ardaloedd Cadwraeth ym Maenorbŷr (dynodwyd ym Medi 2001) a Phorthclew (dynodwyd yn Chwefror 2002).

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)


Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Yn gyffredinol, mae'r ardal wedi ei chadw'n dda ac mae'r cyflwr yn addas i natur amaethyddol y dirwedd. Ond, mae yna arwyddion o ostyngiad mewn arferion rheoli perthi traddodiadol a rheolaeth coetiroedd bach
- Mae meysydd carafannau wedi erydu'r ansawdd weledol mewn mannau, yn enwedig yn ardal Freshwater East.

Canllawiau Rheoli

- Integreiddio datblygiadau twristiaeth yn well i'r dirwedd, yn benodol cymathu meysydd carafannau'n fwy effeithiol i'r dirwedd arfordirol wledig
- Gwarchod y cymeriad brithwaith amaethyddol a choetir, a rheoli'r perthi ar sail gylchol, i adlewyrchu eu pwysigrwydd fel nodweddion ffin hanesyddol
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Atal diraddiad y system llain-gae ganoloesol a'i pherthi ffin
- Sicrhau bod y risg o ddigwyddiadau sy'n llygru'r dŵr ar leiafswm a gwarchod traethau tywodlyd
- Dod o hyd i ddefnydd priodol newydd ar gyfer adeiladau fferm traddodiadol ar ddiwedd eu hoes amaethyddol
- Gwarchod cynefinoedd arfordirol trwy reoli llwybrau cerdded ar hyd copa'r clogwyni i amddiffyn llystyfiant sensitif ac atal gorbori. Peidio â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol i ymestyn i mewn i ardaloedd llystyfiant lled-naturiol
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 5 - YSTAGBWL



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Dyffryn afon isel, canghennog a choediog a'r system o dwyni arfordirol, y traethau tywodlyd a'r clogwyni môr isel cysylltiedig ym man mwyaf deheuol Sir Benfro.

Nodweddion Gweledol a Synhwyaidd

Diffinnir Llys Ystagbwl gan dirwedd system ddyffryn dawel gyda llethrau coediog iawn i ardaloedd uwch y dyffryn a gyda dyfroedd morydol. Mae yna frithwaith o ardaloedd amaethyddol a choetir yn yr ardal dirlannol. Mae'r ardaloedd is hyn yn cynnwys haenau agored o ddŵr a grëwyd trwy greu argaeau er mwyn creu lagwnau - gwaith a wnaethpwyd yn ystod gwaith tirlunio hanesyddol sylweddol ar hen ystad Ystagbwl. Mae Cwningar Ystagbwl wrth foryd dyffrynnoedd Llys Ystagbwl. Mae'r ardal yn ffurfio cyfres o dwyni aeddfed o flaen bae tywodlyd bach a brigiad caregog wedi'i godi, sy'n rhoi ymdeimlad cysgodol i fwyaf yr ardal. Ar ffiniau'r ardal mae yna orchudd o laswelltir arfordirol. Mae yna ddwy allfa nant fach o'r afon argaeedig tu ôl.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae yna gyfres amrywiol o gynefinoedd sy'n gysylltiedig â hen Ystâd Ystagbwl, gan gynnwys glannau tywodlyd a charegog, twyn tywod, glaswelltir twyni, llynnoedd dŵr croyw calchaid. Mae'r cynefinoedd eraill yn cynnwys coetir cymysg deilgoll isel, ac ychydig bach o weundir isel. Mae'r rhywogaethau nodedig yn cynnwys y frân goesgoch, gwiber, neidr y glaswellt, mwydyn sisel, sawl math o ystum ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin. Mae yna gytrefi pwysig o adar y môr ar y clogwyni hefyd.

Nodweddion Daearegol


System ddyffryn ganghennog, endoredig, arfordirol wedi gorlifo, gyda llethrau serth - cynhelir lefel y dŵr mewn ffordd artiffisial. Mae'r twyni tywod yn ffurfio rhwystr i'r môr. Dominyddir y creigwely gan Galchfaen Carbonifferaidd. Mae Cwningar Ystagbwl yn ardal o dwyni tywod, a sefydlogwyd/ addaswyd yn rhannol tros lwyfandir o Galchfaen Carbonifferaidd (ar gyfartaledd rhyw 35m uwchben lefel y môr). Yn cynnwys traethau tywodlyd cyfagos ym Mae Barafundle a Broad Haven.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Mae yna aneddiadau o gynhanes, bryngaer Oes Haearn ac adeiladau ystad o Ôl-ganoloesol, sydd oll o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae'r ystadau'n cynrychioli, yn nhermau tirwedd, effaith weddilliol ffiwdaliaeth a'r bonedd. Mae yna duedd heddiw i'r ystadau fod yn atyniadau ymwelwyr, gan ymgorffori'r foeseig gadwraeth. Mae Ystâd Ystagbwl yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sy'n cynnwys Bae Barafundle a'r pyllau lili hyfryd ym Mosherston, rhwng pentrefi Ystagbwl a Bosherton. Mae Cwningar Ystagbwl - rhwng Penrhyn Linney a Phenrhyn Ystagbwl - yn Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- - Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
5	Ystagbwll	61-Canolig 62 - Uchel 89 - Uchel	240-Eithriadol 242-Canolig 243-Canolig	377- Eithriadol 444- Eithriadol 467 - Uchel 573 - Uchel 608 - Canolig	46173-Uchel 46182-Eithriadol 46183-Eithriadol 46184-Uchel	705-Eithriadol 852-Uchel

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:
Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae'r ardal hon yn cynnwys cyfres naturiolaid o gymoedd coediog sydd, serch hynny wedi eu tirlunio lawer yn flaenorol, sy'n gyffredinol yn gysgodol ac yn ddymunol iawn. Ceir ymdeimlad arbennig o fod mewn tirwedd goetir a pharcdir ystad hirsefydlog o fewn cyfyngiadau'r dyffryn afon
- Mae'r gyfres amrywiol o gynefinoedd, rhai o bwysigrwydd rhyngwladol, yn cynnwys tirweddau o werth ecolegol eithriadol
- Mae gwerth hanesyddol ac archeolegol yr ardal hefyd yn eithriadol, gyda thystiolaeth o reolaeth barhaus hirdymor ystadau tiriog ers yr oes ffiwdal. Mae Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Cwningar Ystagbwll yn cynnwys tirwedd archeolegol gladdedig sydd wedi goroesi, sy'n brin yng Nghymru - ac mae wedi'i gorchuddio â thywod a chwythwyd gan y gwynt sydd wedi'i chadw'n arbennig o dda. Mae'n cynnwys gorwelion a dyddodion sy'n cynrychioli defnydd tir helaeth a gweithgarwch defodol o'r cyfnod Mesolithig i'r Oes Haearn/Rhufeinig-Brydeinig, gyda photensial profedig ac eithriadol ar gyfer astudiaeth bellach
- Mae traethau Sir Benfro'n ffurfio rhan bwysig iawn o'r morlin a chysyniad y Parc Cenedlaethol. Yn ddiwylliannol, mae ganddynt bwysigrwydd sylweddol ym meddwl trigolion lleol ac ymwelwyr
- Mae Ystâd Ystagbwll yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol mewn ardal o harddwch naturiol eithriadol, a dynodwyd llawer ohono fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae tua 202 o'i 810 hectar hefyd wedi'i ddynodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol a reolir ar y cyd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'r ffactorau hyn wrth wraidd y gwerth eithriadol a roddir i'r dirwedd ddiwylliannol yn yr ardal hon.


Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Gwnaethpwyd llawer o waith tirlunio deniadol ar yr ystad yn y gorffennol, ac yna fe'i esgeuluswyd, a'r dilyniant naturiol oedd adennill y tirlun a gynlluniwyd ac yna bygwth rhai o'r rhywogaethau, fel y rheiny sy'n dibynnu ar ddŵr agored. Mae ymagweddau rheoli newydd yn cynnig cyfaddawd rhwng adfer y tirweddau hanesyddol a'r SoDdGA a chadw rhannau cyfoethocaf y tirweddau newydd
- Mae'n ymddangos fod Cwningar Ystagbwll yn ddarostyngedig i drefn reoli dwysedd isel priodol, sy'n gydnaws â'r amgylchedd hwn o dwyni bregus.

Canllawiau Rheoli

- Cadw'r dirwedd a newidiwyd yn hanesyddol, gan adlewyrchu tirlunio blaenorol i greu nodweddion deniadol cyfredol
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad perthi, ffensys a waliau ffin traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig, law yn llaw gydag arferion rheoli dŵr a phridd sy'n sympathetig yn amgylcheddol
- Sicrhau bod y risg o ddigwyddiadau sy'n llygru'r dŵr ar leiafswm a gwarchod y traeth tywodlyd
- Hybu adferiad cymeriad parcdir yr ystad ac elfennau pwysig, a sicrhau bod unrhyw adeiladau newydd yn parchu arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd yn nhermau eu lleoliad, gosodiad, ffurf a defnyddiau adeiladu
- Cynnal y cymeriad i sicrhau bod cyfanrwydd a lleoliad gweledol safleoedd archeolegol yn cael eu cynnal, yn enwedig yng Nghwningar Ystagbwll
- Gwarchod system dwyni Cwningar Ystagbwll trwy gadw erydiad y llwybrau cerdded at isafswm
- Rheoli pwysau ymwelwyr er mwyn cadw effaith erydiad ar dir bregus a lleoliadau sy'n sensitif yn weledol i leiafswm, gan gynnwys gweithredu polisi o wasgaru ymwelwyr i mewn i'r parcdir
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
ANT 6 -
MEYSYDD CASTELLMARTIN/MERRION



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Ehangder llydan agored iawn o iseldir tonnog a'r clogwyni arfordirol cysylltiedig. Defnyddir yr ardal i raddau helaeth ar gyfer meysydd tanio'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Nodweddion Gweledol a Synhwyaidd

Glaswelltir ychydig yn donnog ar lwyfandir arfordirol agored ar ben deheuol Sir Benfro. Ychydig o ddatblygiadau adeiladu sydd yn yr ardal, ac eto nodwedd ohoni yw'r hen chwarelau a phentrefi gwasgarog a'r dylanwad milwrol cryf ar ardaloedd y meysydd i'r gogledd a'r gorllewin o'r Maes Agwedd. Ceir cyfres o glogwyni caregog a llethrau serth gyda rhai cildraethau cysgodol bach ar arfordir y de. Mae gan y clogwyni lai o bantiadau miniog na chlogwyni eraill yn y Parc Cenedlaethol ac mae yna lawer o laswelltir arfordirol ar eu copa.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Mae'r cynefinoedd lled-naturiol yn cynnwys gweundir sych, glaswelltir clogwyni môr, glaswelltir niwtral, gweundir isel, clogwyni, glannau tywodlyd a charegog. Ceir nifer o adar gan gynnwys yr hebog tramor, y frân goesgoch a'r ehedydd. Mae rhywogaethau pwysig eraill yn cynnwys y morlo llwyd, yr ystlum pedol mawr, brith y gors ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn prin eraill, cen prin a'r cytrefi mwyaf o adar y môr ar brif dir

Nodweddion Daearegol

Llwyfandir arfordirol nodedig, ar gyfartaledd, 50m uwchben lefel y môr ac wedi datblygu ar Galchfaen Carbonifferaidd. Rhai systemau dyffryn bas yn bresennol a nodweddion carstig sylweddol gan gynnwys dolinau. Ardaloedd helaeth wedi eu newid gan feysydd milwrol. Wedi'i ffinio gan yr arfordir i'r de a sgarp Hen Dywodfaen Coch i'r gogledd, y ddau gyda chyfeiriadaeth Gorllewin Gogledd Orllewin-Dwyrain De Dwyrain. Clogwyni calchfaen uchel yn nodwedd (hyd at tua 40m) ac yn cynnwys amrywiaeth o nodweddion geomorffolegol gan gynnwys ogofau, staciau a bwâu. Nid oes llawer o arwynebedd o flaendraeth. Mae gan linell y clogwyn gyfeiriadaeth Gorllewin Gogledd Orllewin-Dwyrain De Dwyrain nodweddiadol.

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Cofebion o gynhanes, bryngaerau Oes Haearn, adeiladau a safleoedd canoloesol ac ôl-ganoloesol, sydd oll o bwysigrwydd cenedlaethol. Castellmartin yw'r elfen sengl fwyaf yn Ystad Hyfforddi'r Fyddin Sir Benfro. Fe'i defnyddir gan y fyddin, y fyddin diriogaethol, y cadlanciau, gwasanaethau eraill, rhai lluoedd o dramor ac (yn unigryw yn y DU) gan unedau arfog ar gyfer ymarferion gynyddiaeth byw sy'n tanio'n uniongyrchol. Ceir ardaloedd ardrawiad ar y tir ac ardal ddiogelwch fawr oddi ar y lan. Pan na fydd tanio mae mynediad i'r cyhoedd at Lwybr yr Arfordir. Mae ardaloedd bach iawn o Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru Cwningar Ystagbwl a Thirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Neilltuol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau o fewn yr ANT hon.

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol**
- Ffin yr ANT**
- Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol**

Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
6	Meysydd Castellmartin/ Merrion	61 - Canolig 63 - Canolig 80 - Eithriadol	38-Canolig 238-Eithriadol	146- Eithriadol 359 - Uchel 608 - Canolig 765- Eithriadol	46173-Uchel 46186-Uchel 46187-Uchel 46189-Uchel 46190-Uchel	003-Eithriadol 819-Uchel 852-uchel

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:
Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Mae yna ymdeimlad settledig i'r darn mawr hwn o laswelltir arfordirol agored, a chymeriad arfordirol cryf. Mae yna olygfeydd helaeth o'r môr agored o lawer o'r tir uwch ac ar hyd yr arfordir o lwybr yr arfordir
- Mae'r llinell amlwg o dyrau a meindyrau eglwysi ar hyd y pentrefi ar hyd y cribyn, sef Warren, St. Twynells a St. Petrox yn nodweddiadol o'r ardal leol ac maen nhw'n dal i ddominyddu'r gorwel, er gwaethaf lleoliad ansensitif tyrau gwylio'r maes milwrol bob hyn a hyn ar hyd rhannau o'r un cribyn
- Mae seiniau achlysurol y tanio trwm yn aflafar ac yn ymwthiol ,ond pan nad ydyw'n bresennol dyma ardal agored iawn o'r Parc Cenedlaethol sy'n wyllt ac yn eithaf heddychlon
- Mae yma gynefinoedd o bwysigrwydd rhyngwladol ac mae yma ardaloedd sydd o werth ecolegol eithriadol, o ganlyniad
- Mae gan beth o'r arfordir o glogwyni calchfaen enghreifftiau da o graig ffurfiadau ac mae'r rhai nodedig yn cynnwys Staciau Elegug, sy'n tanlinellu gwerth daearegol eithriadol y dirwedd mewn rhannau o'r ardal
- Mae'r nodweddion hanesyddol ac archeolegol a gofnodwyd yn bwysig yn genedlaethol, ac mae hyn yn cyfiawnhau'r gwerth uchel a roddwyd i'r dirwedd hanesyddol. Yr eglwysi yw'r elfennau mwyaf amlwg o hyn
- Mae'r ardal hyfforddiant a'r meysydd milwrol hirsefydlog yn bodoli'n ddigon anesmwyth gyda statws y Parc Cenedlaethol, ond yn cyfrannu at gadwraeth bywyd gwyllt trwy ostwng ymyrraeth pobl, a chaniateir mynediad i'r cyhoedd ar hyd llwybr yr arfordir pan na fydd tanio byw ar waith.



Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae defnydd rhannau o'r ardal fel tir hyfforddi milwrol a meysydd tanc a magnelaeth tanio byw yn arwain at lefel cymharol isel o reolaeth yn yr ardaloedd hyn, ac felly mae'n edrych wedi'i hesgeuluso, braidd. Ond, mae'r diffyg ymyrraeth gan bobl a chŵn yn debygol o fod o fudd i rai rhywogaethau bywyd gwyllt yn yr ardal. Mae'r safle yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.
- Mae effeithiau'r defnydd milwrol wedi atal difrod i lawer o safleoedd archeolegol ac eithrio ar lefel leol iawn, oherwydd ni chafwyd unrhyw aredig dwfn, isbriddio na gwaith draenio ar y tir. Mae gwaith atgyfnerthu neu reoli gweithgar yn golygu bod nifer o'r nodweddion yn gwella.

Canllawiau Rheoli

- Cadw'r cymeriad arfordirol gyda lefelau isel o ddatblygiad adeiledig, a chynnal ffiniau cae traddodiadol. Sicrhau bod unrhyw adeiladau amaethyddol newydd yn parchu arwyddocâd hanesyddol a diwylliannol y dirwedd yn nhermau lleoliad, gosodiad, ffurf a defnyddiau adeiladu
- Dylid adfer waliau a pherthi sydd wedi cael eu hesgeuluso gyda rheolaeth briodol, gan gynnwys torri perthi'n rheolaidd
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad waliau cerrig a pherthi ffin cae traddodiadol mewn lleoliadau gweledol pwysig
- Monitro lledaeniad rhedyn i'w atal rhag ymestyn i ardaloedd gweundir. Peidio â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol i ymestyn i ardaloedd gweundir, glaswelltir clogwyni môr na glaswelltir niwtral
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ANT 7 - PENRHYN ANGLE



Lleoliad, Cyd-destun a Nodweddion Ffisegol

Penrhyn o iseldir tonnog a'r tir arfordirol cysylltiedig gyda chlogwyni isel a darn o dir morydol isel ar ochr ddeheuol rhan allanol Aberdaugleddau, ym Mae Angle.

Nodweddion Gweledol a Synhwyaidd

Mae'r ardal yn cynnwys rhai copaon bryniau agored gyda ffermydd gwasgarog mewn tirwedd amaethyddol. Oherwydd y tiffurf agored a'r golygfeydd arfordirol a fenthycir o lethrau a chlogwyni danheddus, mae gan yr ardal ymdeimlad arfordirol cryf, yn enwedig i'r gorllewin. Mae yna nifer uchel o adeiladau bwthyn traddodiadol ym mhentref Angle a phatrwm caeau llinol sy'n nodwedd o'r ardal. Mae'r golygfeydd dros Ddyfrffordd Aberdaugleddau at y gosodiadau a'r purfeydd olew yn ddifrifol ond mae'r golygfeydd at Fae Gorllewin Angle a draw at Benrhyn y Santes Ann yn ddeniadol.

Nodweddion y Llystyfiant a'r Cynefinoedd

Cynefinoedd lled-naturiol yn amrywio o fflatiau llaid rhynglanwol cysgodol yn amfae isaf Bae Angle i glogwyni agored a glannau tywodlyd a charegog ar yr arfordiroedd sy'n wynebu'r de a'r gorllewin. Sawl ardal o goetir deillgoll cymysg isel, (wedi eu plannu gan fwyaf) a choetir deillgoll lled-naturiol wedi datblygu ar yr arfordir sy'n wynebu'r gogledd, sy'n edrych allan dros y Ddyfrffordd. Mae'r rhywogaethau nodedig yn cynnwys y frân goesgoch a'r hebog tramor, a daw rhydwyr ac adar gwyllt i Fae Angle dros y Gaeaf.

Nodweddion Daearegol

Clogwyni, lethrau arfordirol serth a blaendraeth caregog o amgylch pentir Angle. Dominyddir gan gerrig silt a thywodfaen Hen Dywodfaen Coch (Silwraidd-Dyfnantaid) gyda pheth Calchfaen Carbonifferaidd yn y gogledd. Nodwedd cyfordraeth pwysig (Chwaternaidd: Pleistosenaid). Cyfeiriadaeth y pentir yn GoGogGo-DDeD, gan gynnwys Pwynt Angle. Ar ei uchaf yn y gogledd, goleddu at y cwm canolog ac yna codi'n ysgafn i sylfaen y sgarp Hen Dywodfaen Coch i'r de. Dominyddir gan Galchfaen Carbonifferaidd. Amfae llydan gyda mynediad i aber/ria'r Cleddau ychydig yn fwy cul oherwydd y pwyntiau ar y naill ochr a'r llall. Dominyddir ardal y traeth gan dywod, gydag ardaloedd gwasgarog o graig wastad (gan gynnwys Calchfaen Carbonifferaidd a thywodfaen Dyfnantaid).

Nodweddion Hanesyddol a Diwylliannol

Meini hirion o'r Oes Efydd a chaer o'r Oes Haearn sy'n bwysig yn genedlaethol. Mae Angle yn enghraifft dda o bentref Eingl-Normanaidd wedi'i gynllunio a daw sawl adeilad o'r Canoloesol. Amrywiaeth eang o ddeunydd archeolegol, o gynhanes i'r milwrol modern. Roedd gan y pentir rôl amddiffynnol bwysig oherwydd ei leoliad ac yn dyst i hyn mae caer Chapel Bay sy'n bwysig yn genedlaethol, a'r gaer ar Ynys Thorn sy'n dominyddu'r olygfa o Fae Gorllewin Angle. Llauer o'r ANT yn Nhirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau, sy'n cynnwys pentref Angle. Pensaernïaeth nodedig Angle yn ganlyniad i gynlluniau'r bonedd i'w droi'n bentref

Nodiant y Map:

- Ffin y Parc Cenedlaethol
- Ffin yr ANT
- — Ffin yr ANT wedi'i diffinio gan ffin y Parc Cenedlaethol



Gwerthusiad ac Argymhellion

ANT Rhif.	Ardal Nodwedd	Meysydd Agwedd Gweledol a Synhwyrdd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddaearegol	Meysydd Agwedd Cynefinoedd y Dirwedd	Meysydd Agwedd y Dirwedd Hanesyddol	Meysydd Agwedd y Dirwedd Ddiwylliannol
7	Penrhyn Angle	65 - Canolig 74 - Eithriadol	233-Canolig 236-Canolig 237-Eithriadol	376 - Uchel 401 - Uchel 584 - Uchel 605 - Canolig 608 - Canolig	43917-Eithriadol 43918-Eithriadol 43920-Eithriadol	003-Eithriadol

Termau Gwerthuso Agwedd LANDMAP:

Eithriadol: O Bwysigrwydd Cenedlaethol neu Ryngwladol
Uchel: O Bwysigrwydd Rhanbarthol neu Sirol
Canolig: O Bwysigrwydd Lleol
Isel: Ychydig o Bwysigrwydd neu Heb Fod yn Bwysig o Gwbl

(Mae'r cyfeirnodau yn y tabl yn cyfeirio at yr Meysydd Agwedd penodol a nodwyd)

Nodweddion Arbennig (Nodweddion Pwysig y Dirwedd)

- Nodwedd o ardal pentref Angle a'r ardaloedd o'i gwmpas, yw patrymau cae amaethyddol traddodiadol gyda pherthi a banciau perthi, ar wasgar rhwng cymoedd coediog bach
- Mae yma ymdeimlad arfordirol cryf diolch i'r penrhyn a'r golygfeydd dros aber Aberdaugleddau i bentir Penrhyn y Santes Ann, gyda'i oleudy a'i fythynnod, ac i fyny'r aber at lanfeydd y terfynfeydd olew. Cyfoethogir yr awyrgylch gan y cymeriad adeiladu traddodiadol ym mhentref Angle
- Mae'r ardaloedd i'r gorllewin a'r de yn agored iawn, ac yn cyferbynnu gydag ardaloedd mwy cysgodol Bae Gorllewin Angle, ac yn benodol Bae Angle, sy'n edrych am i mewn ac yn rhan annatod o draethlin moryd Aberdaugleddau
- Mae yna rai cynefinoedd traethlin sydd o bwysigrwydd rhyngwladol ac sy'n golygu bod yma ardaloedd o werth ecolegol uchel
- Mae'r safleoedd hanesyddol ac archeolegol a gofnodwyd mor bwysig fod y dirwedd yma o werth hanesyddol eithriadol. Mae'n werth nodi'n benodol fod Angle yn enghraifft wych o bentref Canoloesol wedi'i gynllunio sydd wedi goroesi, gydag un prif stryd, y craidd pendefigaidd ar un ochr (gyda llawer o adeiladau wedi goroesi, gan gynnwys y colomendy, yr eglwys, y 'lleiandy' a'r tŷ tŵr), a llain-gaeau yn rhedeg yn ôl o ddarnau o dir bwrtais ar hyd stryd y pentref
- Atgyfnerthir gwerth diwylliannol eithriadol y dirwedd gan ei chyfoeth hanesyddol ac archeolegol. Mae Tirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Dyfrffordd Aberdaugleddau'n cwmpasu adran ogleddol yr ANT hon gan gynnwys Bae Angle. Mae gan y dyffryn afon a'r dirwedd forydol hon gyfres ddiguro o olion, sy'n adlewyrchu goruchafiaeth forol, anheddiad, masnach, pysgota, amddiffyniad a diwydiant, yn rhychwantu'r cyfnod o'r cynhanesyddol i'r modern.
- Mae gan bentref Angle Ardal Gadwraeth a ddynodwyd yn Awst 1997, sy'n ymestyn at ymylon Bae Gorllewin Angle a Bae Angle, ac yn cwmpasu llawer o'r system cae Ganoloesol greiriol.

Tueddiadau Dirnadwy yn y Dirwedd

- Mae'r rheolaeth amaethyddol ar raddfa fechan ac mae'n amrywiol, gyda chymoedd coediog a pherthi'n cael eu cynnal a datblygiadau, yn gyffredinol, yn ystyried technegau traddodiadol. Teimlir bod y duedd, ar y cyfan, yn gyson
- Mae'r gwaith o ddatgysylltu gosodiadau olew ar ochr ddeheuol Bae Angle wedi gostwng effaith datblygiadau diwydiannol ar yr ardal i raddau helaeth, yn enwedig y golygfeydd o bentref Angle .
- Mae effaith weledol tyrbinau a therfynellfeydd yn amlwg yn hanner gogleddol yr ardal. (LANDMAP Newid Cyfeiriad: Adroddiad Monitro Elfennau

Canllawiau Rheoli

- Cynnal cymeriad unigryw ac arbennig pentref Angle, a'i Ardal Gadwraeth, wrth ystyried unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd y bensaernïaeth a chynllun y stryd
- Gwarchod y cymeriad brithwaith coetir ac amaethyddol a rheoli'r perthi'n briodol ar sail gylchol, yn enwedig y patrwm caeau Canoloesol o amgylch pentref Angle
- Annog perchnogion tir i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd, gyda phwyslais penodol ar hybu adferiad neu ailsefydliad traddodiadol perthi ffin cae sy'n gysylltiedig â'r waliau cerrig a'r system llain-gaeau greiriol mewn lleoliadau gweledol pwysig. Peidio â chaniatáu i dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol ymestyn i mewn i ardaloedd llystyfiant lled-naturiol sensitif
- Amddiffyn safleoedd archeolegol rhag ddifrod gan ymwelwyr ac erydiad naturiol
- Hybu rheolaeth ofalus ar gyfer ardaloedd diwydiannol cyfagos [y burfa olew yn Rhoscrowther i] reoli eu heffaith, yn enwedig ar y gosodiad gweledol
- Sicrhau, cyhyd ag sy'n bosib, nad yw henebion ac olion yn cael eu colli na'u difrodi.